

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) y penwythnos diwethaf. Diolchwn am gael ei adnabod ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Eryl, Bethan, Rhys ac Arwyn a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Gweddïwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am dad a thaid arbennig iawn.
- Parhawn i gyflwyno Irwyn Jones (Tanyfron) i'r Arglwydd yn ein gweddïau a hyderwn ei fod yn adnabod agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Diolchwn am y gofal y mae'n ei gael yn Ysbyty Glan Clwyd, a chofiwn hefyd am Gwen, ei wraig, gan ddiolch am ei gofal hithau. Cofiwn hefyd am Edith Maloney a Gwyneth Griffiths (Henllan) yn yr Inffirmari, a Kitty Parry (Llanefydd) sydd wedi symud i Dolwen am gyfnod. Hyderwn y bydd y tair ohonynt yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal a chwmni'r Arglwydd. Anfonwn ein cofion at eraill o'r Fro sydd wedi, neu yn cael amrywiol driniaethau ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan iawn iddynt oll.
- Bydd Cymdeithasfa'r Gogledd cyfarfod yn Llanrug yr wythnos hon a byddant yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Mr John H. Williams a fu'n flaenor yn Llanefydd ers 60 mlynedd, Mr Elwy Lloyd Evans a fu'n flaenor yn Nhanyfron ers 50 mlynedd, a Mr Robert Douglas Owen (Llanfair), Mrs Dilys Vaughan (Saron) a Mr Glyn Davies (Saron) fu'n flaenoriaid ers 40 mlynedd. Diolchwn ninnau'n gywir iawn iddynt am eu gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd ac estynnwn ein llongyfarchion a'n dymuniadau gorau iddynt.
- Llongyfarchiadau i Lois a Huw Roffe (Henllan) ar enedigaeth mab, Ifan Sion. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig hon, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

## Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn gwerthfawrogi eich cyfraniad tuag at waith cenhadol y chwiorydd HEDDIW, os gwelwch yn dda.

**Nodyn i'r Trysoryddion:** Oes modd i chi roi yr arian i Mair, gydag unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', HEDDIW (Ebrill 10fed), os gwelwch yn dda?

## Ar Osod

Tŷ clyd yn Llansannan wedi ei adnewyddu'n ddiweddar. 3 ystafell wely. Cegin newydd. Gwres canolog olew. Paneli solar tuag at gost y trydan. Am fanylion pellach a ffurflen gais, cysylltwch â Trefor Roberts, Prysor, Llansannan (01745 870683).

## I ddod

**CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Noson Gymdeithasol yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 26ain am 7.30 yng nghwmni Karen Owen.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Actau 14: 1-7 (BCND tud.145 / BCN tud.133)



# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10<sup>fed</sup> Ebrill 2016

## Darlleniad y Dydd

Actau 12: 1-5

(BCND tud.142 / BCN tud.130)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw. Rydym yn ddiolchgar i gyfeillion o'r Henaduriaeth sydd wedi dod atom y ddau Sul olaf yma i drefnu'r pleidleisio – gobeithio eu bod wedi mwynhau croeso'r eglwys i gyd yn eu tro. Rydym yn ymddiried yn Nuw fod ganddo ddyfodol ar ein cyfer ac ar gyfer ei waith yn ein plith dros y cyfnod nesaf yma yn ein hanes fel gofalaeth. Codwn ein llygaid eto at yr Arglwydd a'n gwnaeth, ac a'n gwnaeth yn 'ddefaid ei borfa'. (Salm 100) 'Deuwn i'w byrth a diolch' a dyrchafwn ei Enw gyda'n gilydd. Mae Iesu yn haeddu pob mawl ac anrhydedd gan mai Ef yn unig sy'n deilwng i agor dirgelwch Duw i ni.

Mi fydda i'n rhyfeddu wrth edrych ar bres papur! Rhyfeddu cyn lleied dwi'n gallu ei brynu hefo fo gan amlaf a meddwl yn ôl i amser yr hen bapur deg swllt coch hwnnw oedd werth gymaint mwy na 50c! Ond mae pres papur yn eithriadol o gywrain ar un olwg – pob llinell, ysgrifen a llun yn berffaith yn eu lle. Ond wrth edrych ar bapur pum punt, er enghraifft, dydi o ddim yn bapur deg punt er ei fod o mor debyg. Mae'n rhaid cael papur pum punt i ddangos i ni beth ydi papur pum punt. Yn yr un modd ni all neb ond Duw ddatguddio Duw i ni. Mae'n rhaid i ni gael Duw i ddangos i ni pwy ydi Duw. Er fod y cread oll yn tystio i fawredd Duw, dydi'r cread, er ei fawredd, ddim yn Dduw. Welwn ni mo Dduw yn llawn wrth edrych ar y pethau a greodd. Mae'n rhaid i ni wrth ddatguddiad gwell na hynny – a dyna gawn ni yn Iesu trwy i'r Ysbryd Glân ei ddatguddio yn Dduw ac yn ddyn i ni. Yn Iesu Grist rydym yn cael gweld Duw yn llawn (Colosiaid 1:19) ac mae tystiolaeth yr Ysbryd Glân yn ddibynadwy hefyd gan fod yr Ysbryd Glân yn Berson Duw hefyd ac yn adnabod dyfnderoedd Duw yn gyflawn (1 Corinthiaid 2:10).

Mae neges yr Efyngyl felly, o'r cychwyn cyntaf yn siŵr o achosi gwrthwynebiad fel y gwelwn ni o'r darlleniad heddiw. Gwrthwynebiad hyd at y man lle'r oedd Cristnogion yn cael eu lladd am arddel Dwyfoldeb, Arglwyddiaeth a dyndod llawn Iesu. I'r Cristnogion a oedd yn llygaid-dystion i'r Iesu atgyfodedig, doedd yna neb na dim uwch na Iesu – yn sicr neb o frenhinoedd na llywodraethwyr y gwledydd nac unrhyw dduw na duwies o'u heiddo. Lladdwyd Iago, brawd Ioan gan gledddyf Herod oherwydd ei fod yn meiddio cyhoeddi'r newyddion da am atgyfodiad Iesu a'i Arglwyddiaeth ac am fod llawer, o glywed y newyddion da, yn 'troi at yr Arglwydd'. Mae'n syndod o hyd fod newyddion gorau'r byd yn creu y fath atgasedd a gwrthwynebiad ond dyna oedd profiad yr Eglwys Fore. Mae addoli Iesu yn her aruthrol i drefn y byd ond dyma'n braint.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun – 11<sup>eg</sup> • **Gwaith Cwrs yr Ysgolion Sul** - Cofiwch fod angen mynd â'r cyweithiau i Capel y Rhiw, Pwllglas heno rhwng 7.00 ac 8.00.
- Iau – 14<sup>eg</sup> • **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Aneurin yn pregethu.
- RHAGRYBUDD • Os bydd canlyniad y bleidlais gyntaf trwy holl eglwysi'r Ofalaeth yn gadarnhaol, a bod Y Gymdeithasfa fydd yn cyfarfod ar Ebrill 12fed-13eg yn rhoi y caniatâd terfynol inni symud ymlaen, bydd y **Pwyllgor Bugeiliol** yn cyfarfod yn Llansannan nos Fercher, Ebrill 20fed am 7.30, sef y cam nesaf yn y broses o alw gweinidog. Aelodau'r pwyllgor fydd holl flaenoriaid a diaconiaid yr Ofalaeth, un aelod o bob eglwys sydd wedi eu hethol trwy'r pleidleisio diweddar, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cwrdd Chwarter.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00, a bydd y Parch. Gerwyn Roberts yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn oedfa'r prynhawn i gymryd pleidleisiau aelodau Capel y Groes yn y broses o alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Henllan am 2.00 (*syllwch ar y newid*) pryd y bydd Mared a Neil Casey yn cyflwyno Elysteg Emyr i gael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

### Llansannan

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mercher – 13<sup>eg</sup> Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn Ebrill 10fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth - 12<sup>fed</sup> Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Sarah yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00 a bydd dau gynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn bresennol yn yr oedfa i gymryd pleidleisiau aelodau Capel Nantglyn yn y broses o alw gweinidog.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 (*syllwch ar y newid*) a bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa yn Saron am 10.00. Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn bresennol yn y ddau wasanaeth i gymryd pleidleisiau'r ddwy eglwys yn y broses o alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 (*syllwch ar y newid yma hefyd*). Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 pryd y bydd Owain a Nia yn cyflwyno Wiliam Dafydd i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Gwener – 15<sup>fed</sup> Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Enwau i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn Ebrill 10fed**, plis.
- Sul nesaf – 17<sup>eg</sup> Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Manylion Cyswllt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.